Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Rheoli Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Anifeiliaid Cymru

(2025-2029)



# Cynnwys

03 Rhagair y Gweinidog

04 Cyflwyniad

06 Lleihau'r angen am wrthficrobau a llai o gysylltiad anfwriadol â nhw

07 Gwyliadwriaeth fanylach

07 Addysgu ac ymgysylltu â'r cyhoedd

08 Gwneud y defnydd gorau o wrthficrobau mewn anifeiliaid

09 Buddsoddi mewn arloesi, cyflenwi a mynediad

10 Bod yn bartner byd-eang da

10 Gwerthuso

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51503, ISBN argraffu 978-1-83715-502-6, ISBN digidol 978-1-83715-490-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair y Gweinidog



Gan ymateb i fygythiad ymwrthedd gwrthficrobaidd, mae'n dda gennyf lansio Cynllun Rheoli Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Anifeiliaid newydd i Gymru (2025-2029). Mae'r cynllun wedi cael ei argymell imi gan y Grŵp Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Iechyd Anifeiliaid (2024-2029), sy'n dod ag arbenigwyr o nifer o sectorau ynghyd i sicrhau ein bod yn gweithio gyda'i gilydd, gan ddefnyddio ffordd gydgysylltiedig o weithredu i sicrhau bod gwrthfiotigau'n parhau i weithio – ar gyfer anifeiliaid ac ar gyfer pobl.

Ymwrthedd gwrthficrobaidd yw un o'r bygythiadau byd-eang mwyaf i iechyd y cyhoedd. Yn y DU yn unig bu dros 66,000 o achosion o heintiau difrifol a oedd yn ymwrthod â gwrthfiotigau yn 2023[1], ffigur a fydd yn codi os nad ydym yn gweithredu. Rhagwelir y bydd mwy o bobl yn marw o ganlyniad i ymwrthedd gwrthficrobaidd nag o ganser erbyn 2050 – dyna pam mae ymwrthedd gwrthficrobaidd wedi ennill yr enw 'y pandemig tawel'.

Mae cyhoeddi cynllun pwrpasol ar gyfer Cymru yn darparu eglurder ar sut y byddwn yn helpu i gyflawni yn erbyn nodau a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol diweddaraf y DU[2] (2024-2029), sy'n rhan o weledigaeth 20-mlynedd y DU ar gyfer ymwrthedd gwrthficrobaidd[3]. Mae hefyd yn ein galluogi i adeiladu ar y cyflawniadau a wnaed o dan ein Cynllun Gweithredu cyntaf ar gyfer Cymru, sef Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd[4] (2019-2024).

Wrth atal y risgiau mae ymwrthedd gwrthficrobaidd yn eu peri i'n cymdeithas mae'n rhaid dechrau drwy sicrhau bod ein hanifeiliaid a'n pobl yn iach, er mwyn lleihau'r angen am wrthfiotigau a'u cadw ar gyfer pryd mae wir eu hangen. Dyma yn union y dull 'mae atal yn well nag iacháu' sydd wedi'i ymgorffori yn Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru – rhywbeth rwyf am ei sicrhau ar gyfer ein holl anifeiliaid. Mae ymdrechion i fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd yn cyd-fynd yn glir â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)[5]. Mae gwrthfiotigau'n adnodd gwerthfawr y mae rhaid inni ei ddiogelu, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yma yng Nghymru, byddwn yn parhau i ddefnyddio'r dull Iechyd Cyfunol, gan gydweithio â chydweithwyr iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd i fynd i'r afael â'r mater cymhleth hwn. Hefyd byddwn yn rhannu ein dull a dysgu oddi wrth ein gilydd pryd bynnag y bo modd. Dim ond drwy weithio gyda'n gilydd a gwneud ymdrech ar y cyd y byddwn yn cyflawni ein nod cyffredin.

Byddwn yn parhau i fanteisio ar ein cryfderau, gan adeiladu ar yr ymdrechion sydd wedi cael eu gwneud yn y maes hwn gan lawer o'n partneriaid, er mwyn atal ymwrthedd gwrthficrobaidd rhag datblygu a lledaenu. Ar lawr gwlad y bydd y camau mae angen eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth yn cael eu cymryd. Ni waeth a yw'r camau gweithredu hyn yn fawr neu'n fach, maent yn cyfrannu at ein brwydr yn erbyn ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Rwy'n hynod falch o'r cyfraniad y mae Cymru eisoes wedi'i wneud at fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd, ac rwy'n croesawu lansio'r cynllun rheoli diweddaraf hwn.

**Huw Irranca-Davies AS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

1 Heintiau sy'n ymwrthod â gwrthfiotigau'n parhau i godi
2 Confronting antimicrobial resistance 2024 to 2029 - GOV.UK
3 Contained and controlled: the UK's 20-year vision for antimicrobial resistance
4 Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd: Cynllun Gweithredu
5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

# Cyflwyniad

Ym mis Mai 2024, cyhoeddodd pedair gwlad y Deyrnas Unedig yr ail gyfres o Gynlluniau Gweithredu Cenedlaethol pum mlynedd ar y cyd, gan nodi'r camau nesaf tuag at wireddu gweledigaeth 20 mlynedd y DU i reoli'r bygythiad cynyddol o ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU yn nodi dull integredig, Iechyd Cyfunol o gymryd y camau nesaf wrth fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Dangosir crynodeb isod:

**Trechu Ymwrthedd Gwrthficrobaidd: ail gynllun gweithredu cenedlaethol 5-mlynedd y DU (2024 i 2029)**

**Lleihau'r angen am wrthficrobau, a llai o gysylltiad anfwriadol â nhw**

**1. Atal a rheoli heintiau**
- → Ymyraethau ar sail gwybodaeth
- → Yr amgylchedd adeiledig
- → Lleihau gwastraff a rheoli gwastraff yn effeithiol

**2. Addysgu ac ymgysylltu â'r cyhoedd**
- → Ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgyrchoedd
- → Defnyddio lleoliadau addysg
- → Canllaw ar ymgysylltu

**Gwneud y defnydd gorau o wrthficrobau**

**3. Gwyliadwraeth fanylach**
- → Canolbwyntio ar wyliadwraeth ac ymateb
- → Gwyliadwraeth i lywio ymyraethau

**4. Stiwardiaeth a gwaredu gwrthficrobau**
- → Cymorth i wneud penderfyniadau clinigol
- → Presgripsiynu a gwaredu priodol
- → Ymyraethau ymddygiadol

**5. Y Gweithlu Ymwrthedd Gwrthficrobaidd**
- → Hyfforddiant iechyd a gofal cymdeithasol
- → Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol
- → Llywodraethiant iechyd a gofal cymdeithasol
- → Gwybodaeth a sgiliau'r gweithlu milfeddygol
- → Systemau i gefnogi iechyd anifeiliaid

**Buddsoddi mewn arloesi, cyflenwi a mynediad**

**6. Arloesi a dylanwadu**
- → Atebion o ran ymwrthedd gwrthficrobaidd
- → Modelau tanysgrifio
- → Goresgyn rhwystrau'r farchnad
- → Gwella ac addasu

**7. Defnyddio gwybodaeth ar gyfer camau gweithredu**
- → Cynhyrchu a defnyddio tystiolaeth
- → Rhwydweithiau ymchwil

**8. Gwahaniaethau ac anghydraddoldebau iechyd**
- → Data ar anghydraddoldebau iechyd
- → Pecyn cymorth anghydraddoldebau iechyd
- → Ymyraethau anghydraddoldebau iechyd

**Bod yn bartner byd-eang da**

**9. Diplomyddiaeth ymwrthedd gwrthficrobaidd**
- → Atal a pharodrwydd
- → Mynediad a stiwardiaeth
- → Defnyddio gwrthficrobau ym maes ffermio
- → Safonau ar gyfer cynhyrchu a rheoli gwastraff
- → Eirioli ac ymgysylltu

Ffynhonnell: Yn seiliedig ar ffigur o Gynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU.



Mae Cynllun Rheoli Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Iechyd Anifeiliaid Cymru 2025-2029 yn cyfrannu'n uniongyrchol at nodau perthnasol Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU, mewn ffordd debyg i'r cynllun blaenorol ar gyfer Cymru (Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd 2019-2024).

Mae "gwrthficrobaidd" yn cynnwys meddyginiaethau ar gyfer trin sawl math gwahanol o gyfryngau sy'n achosi afiechydon: bacteria, ffyngau, protozoa, feirysau a pharasitiaid llyngyren. Yn yr un modd â'n cynllun blaenorol, bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar reoli ymwrthedd i wrthfiotigau a ddefnyddir i drin heintiau bacteriol. Y rheswm am hyn yw bod y risg fwyaf o ymledu ymwrthedd rhwng organebau yn dod o facteria, oherwydd eu gallu i gyfnewid genynnau. Hefyd, ymhlith y gwahanol fathau o wrthficrobau, ar hyn o bryd mae'r goblygiadau mwyaf i iechyd y cyhoedd yn deillio o ddefnydd anifeiliaid o wrthfiotigau.

Er mwyn cyflwyno'r cynllun hwn, bydd angen gweithio mewn partneriaeth, gan gydlynu meysydd iechyd y cyhoedd, iechyd anifeiliaid ac iechyd yr amgylchedd er mwyn diogelu gwrthfiotigau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er bod amcanion y cynllun hwn yn canolbwyntio ar iechyd anifeiliaid, nid ydynt yn bodoli ar wahân, ac o'r cychwyn cyntaf maen nhw wedi cael eu datblygu er mwyn gwneud cyfraniad ystyrlon a chydlynol at amcan Iechyd Cyfunol Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU. Trwy alinio â Chynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU, mae Cymru yn cyfrannu at yr angen byd-eang i frwydro yn erbyn ymwrthedd gwrthficrobaidd a lleihau'r risg sy'n deillio ohono i lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd Bwrdd Cyflawni Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Anifeiliaid Cymru, sydd newydd ei sefydlu, yn hybu'r gwaith o gyflawni'r Cynllun hwn dros y pedair blynedd nesaf, drwy ddod â gwybodaeth a phrofiad y gwahanol sectorau at ei gilydd i sicrhau bod y Cynllun hwn nid yn unig yn bodloni uchelgeisiau ac amcanion Llywodraeth Cymru, ond yn ystyried y realiti ar lawr gwlad hefyd. Trwy gydol y gwaith o gyflawni'r Cynllun hwn, byddwn yn cydweithio â phartneriaid ym meysydd iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd er mwyn helpu i sicrhau bod y Cynllun a'i amcanion yn cael cymaint o effaith â phosibl.

Yn y Cynllun hwn rydym wedi dewis canolbwyntio ar ganlyniadau allweddol ar draws pedair thema Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU sydd naill ai'n ymwneud yn benodol ag iechyd anifeiliaid, neu sy'n gallu arwain at Gymru yn rhoi camau gweithredu ar waith ym maes iechyd anifeiliaid i gael effaith gadarnhaol sylweddol.

# Lleihau'r angen am wrthficrobau a llai o gysylltiad anfwriadol â nhw

## Atal a rheoli heintiau

Mae atal a rheoli heintiau mewn anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes eisoes yn flaenoriaeth yng Nghymru, ac mae lleihau'r angen am wrthficrobau yn gam allweddol i fynd i'r afael â bygythiad ymwrthedd. Bydd ein dulliau o fynd i'r afael â bygythiad ymwrthedd gwrthficrobaidd yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf er mwyn sicrhau bod modd rhoi **ymyraethau ar sail gwybodaeth** ar waith a chyflawni'r amcan allweddol o leihau ein dibyniaeth ar wrthficrobau.

Mewn anifeiliaid fferm, mae cynlluniau iechyd a lles anifeiliaid milfeddygol sy'n canolbwyntio ar weithredu yn cyd-fynd â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd Cymru yn sicrhau bod gan fusnesau fferm gynlluniau iechyd anifeiliaid rhagweithiol a mesurau bioddiogelwch da.

Mae atal heintiau'n cynnwys lleihau dod i gysylltiad â chyfryngau heintus, a chynyddu gallu'r anfail lletyol i wrthsefyll yr haint, os yw'n dod i gysylltiad ag ef. Bydd Cymru yn defnyddio dull cyfannol o atal a rheoli haint, a bydd yn manteisio i'r eithaf ar bob cyflwr i wneud hyn. Er enghraifft:

- Bridio anifeiliaid sy'n gallu gwrthsefyll clefydau ac sy'n addas ar gyfer eu system rheoli
- Maeth da
- Rheolaeth dda ar gyfer pori a chadw anifeilaid o dan do
- Bioddiogelwch
- Hylendid da
- Mewnbynnau ataliol gan filfeddygon
- Monitro a chofnodi – gwybod statws iechyd.

Mae Cymru wedi ymrwymo i weithio ar sail Iechyd Cyfunol, sy'n cynnwys mynd i'r afael â datblygiad ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn pobl ac anifeiliaid, sy'n cael ei sbarduno yn aml gan y defnydd o wrthfiotigau. Yn bwysig, mae hefyd yn ymwneud â mynd i'r afael â'r dulliau gwahanol o ledaenu ymwrthedd gwrthficrobaidd, sy'n gallu digwydd trwy'r amgylchedd a'r gadwyn fwyd. **Mae lleihau gwastraff a rheoli gwastraff yn effeithiol** yn hanfodol er mwyn lleihau cysylltiad anfwriadol â gwrthficrobau y gellir ei osgoi, a'r risg o ymddangosiad a lledaeniad ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Mae synergedd yn ein nodau i leihau'r risg o ymwrthedd gwrthficrobaidd trwy reoli gwastraff a chyflawni blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru yn ymwneud â llygredd amaeth a stiwardiaeth amgylcheddol. Mae lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfiotigau a gwrthficrobau i'r lefelau isaf posibl yn lleihau cysylltiad anifeiliaid â gwrthficrobau, ac yn lleihau'r risg o effeithiau andwyol gwrthfiotigau ar fywyd gwyllt a'r amgylchedd, ac ar ledaeniad ymwrthedd gwrthficrobaidd a chemegau sy'n sbarduno ymwrthedd gwrthficrobaidd i'r amgylchedd.



# Gwyliadwriaeth fanylach

Mae deall baich clefydau anifeiliaid a sut mae pobl sy'n gweithio ar y rheng flaen yn mynd i'r afael ag ef yn hanfodol er mwyn cyflwyno strategaethau effeithiol i frwydro yn erbyn ymwrthedd gwrthficrobaidd. Rydym yn ceisio cadw golwg fanwl ar heintiau, achosion ac ymatebion er mwyn deall yn well yr hyn sy'n sbarduno'r defnydd o wrthficrobau a sut y gellir eu hatal.


Yn ogystal â helpu i lywio ymyraethau, bydd gwyliadwraeth fanwl yn gwella ein galluogrwydd i fesur, rhagweld a deall trosglwyddiad organebau ag ymwrthedd a'u genynnau.

Mae'n rhaid i ni fesur tri phrif faes er mwyn monitro ein nodau rheoli ymwrthedd gwrthficrobaidd, a'u cyflawni yn y pen draw:

- Y clefydau sy'n sbarduno'r defnydd o wrthfiotigau.
- Patrymau'r defnydd o wrthfiotigau mewn anifeiliaid yng Nghymru.
- Yr ymwrthedd sy'n datblygu ac yn lledaenu o ganlyniad i ddefnydd gwrthfiotig mewn anifeiliaid yng Nghymru.

# Addysgu ac ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae angen dull gweithredu Iechyd Cyfunol er mwyn mynd i'r afael â'r defnydd o wrthficrobau ac ymwrthedd gwrthficrobaidd, ac mae Cymru yn deall mai un elfen yn unig o system gymhleth yw'r rôl sydd gan y llywodraeth. Y rhai sy'n gyfrifol am newid gwirioneddol yw gweithwyr proffesiynol fel milfeddygon, perchnogion anifeiliaid, y gymuned ymchwil, y byd academaidd a'r cyhoedd yn ehangach. Er mwyn mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd, mae angen i'r cyhoedd wybod am natur y bygythiad, a'i ddeall. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo ymgyrchoedd **ymwybyddiaeth y cyhoedd** a lledaenu'r negeseuon yn ymwneud â defnydd cyfrifol o wrthficrobau, arferion rhagnodi, meddyginiaeth filfeddygol ataliol ac ymwrthedd gwrthficrobaidd trwy **leoliadau addysg a lleoliadau eraill**.



# Gwneud y defnydd gorau o wrthficrobau mewn anifeiliaid

## Stiwardiaeth gwrthficrobaidd

Ein huchelgais yw i Gymru fod yn esiampl o sut mae defnyddio gwrthfiotigau mewn ffordd gyfrifol ac i'n milfeddygon a'n ceidwaid anifeiliaid fabwysiadu'r safonau uchaf o ran stiwardiaeth gwrthfiotigau. Credwn fod Cymru mewn sefyllfa dda i arloesi dulliau gweithredu newydd a sicrhau bod gwrthfiotigau'n cael eu defnyddio'n ofalus ac mewn ffyrdd sy'n lleihau'r risg o ddatblygu ymwrthedd.

Byddwn yn cefnogi cyfleoedd i wella'r **broses o wneud penderfyniadau clinigol a rhagnodi gwrthficrobau mewn ffordd briodol**. Byddwn yn cynnal safonau uchel o iechyd a lles ac yn optimeiddio'r defnydd o wrthficrobau trwy hyfforddi ac addysgu'r **gweithlu milfeddygol** er mwyn sicrhau newidiadau cadarnhaol i ymddygiad rhagnodi.

Byddwn yn gweithio gyda milfeddygfeydd, trwy fentrau parhaus fel y Rhwydwaith Hyrwyddo Rhagnodi Milfeddygol, er mwyn parhau i gryfhau'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru, gan sicrhau bod yr wybodaeth orau bosibl ganddynt am ymwrthedd gwrthficrobaidd er mwyn iddynt fod yn eiriolwyr credadwy ac yn dangos esiampl o ran sut i'w reoli.

Byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i hyfforddiant ar benderfynu a yw therapi gwrthfiotig yn angenrheidiol ac yn briodol, a lle bo angen caiff gwrthfiotigau eu dewis ar sail y canlyniad clinigol gorau a'r risg leiaf o ddatblygu ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Rydym yn cydnabod bod gwaith milfeddygon wrth ddewis y gwrthfiotig mwyaf priodol ar gyfer gwella heintiau a lleihau'r risg o ymwrthedd yn elfen allweddol o stiwardiaeth gwrthficrobaidd. Byddwn yn hyrwyddo gwaith i ddarparu canllawiau ar ddewis gwrthfiotigau, gan gynnwys llenwi bylchau gwybodaeth lle maen nhw'n bodoli.

## Y gweithlu ymwrthedd gwrthficrobaidd

Mae'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru yn gyfrifol am ragnodi gwrthfiotigau, ac felly mae'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol, gyda'r bwriad o leihau'r risg o ddatblygu ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Yn aml, ceidwaid anifeiliaid sy'n gyfrifol am roi gwrthficrobau i anifeiliaid yng Nghymru ac mae ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi'n gywir, yn dilyn cyngor milfeddygol.

Mae'r arbenigedd yng Nghymru ar gyfer ymdrin ag ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn anifeiliaid yn cynyddu, ac mae ein sefydliadau academaidd a'n harbenigwyr yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi ein hymdrechion. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein harbenigedd ymwrthedd gwrthficrobaidd yng Nghymru er mwyn ein helpu i sicrhau newid cadarnhaol i Gymru.

Byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n gweithio i ysgogi ymddygiad gorau ymhlith milfeddygon a cheidwaid anifeiliaid yng Nghymru er mwyn atal clefydau a defnyddio gwrthfiotigau mewn modd cyfrifol. Mae llawer o ffermydd yng Nghymru yn defnyddio symiau bach o wrthficrobau yn llwyddiannus, a byddwn yn ceisio dysgu gwersi o hyn a sicrhau bod modd rhannu straeon llwyddiant.

Byddwn yn hyrwyddo **mentrau i gefnogi iechyd anifeiliaid** fel conglfaen iechyd a lles anifeiliaid y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Trwy gefnogi gwaith cydweithredol rhwng ffermwyr a milfeddygon i wella iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru, rydym yn gobeithio lleihau baich clefydau sy'n arwain at ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Bydd Cymru'n parhau i weithio gyda chydweithwyr meddygol ac iechyd y cyhoedd i rannu arferion gorau a dysgu gwersi cydfuddiannol er mwyn hyrwyddo nodau cryfhau stiwardiaeth gwrthficrobaidd a diagnostig.

# Buddsoddi mewn arloesi, cyflenwi a mynediad




Er mwyn mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd, mae angen gwybod am natur y bygythiad a'i ddeall. Mae ein hanghenion tystiolaeth yn fawr ac yn eang, o sylfaen foleciwlaidd datblygu a lledaenu ymwrthedd, i ymddygiad milfeddygon a cheidwaid anifeiliaid sy'n rhoi presgripsiwn am wrthfiotigau ac yn eu defnyddio.

Byddwn yn parhau i gyfrannu ein gofynion a'n cyngor at raglenni ymchwil priodol yn ymwneud â **chynhyrchu a defnyddio tystiolaeth**. Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth er mwyn helpu i ddatblygu triniaethau a brechlynnau newydd gyda'r bwriad o leihau ymwrthedd gwrthficrobaidd. Ein nod hefyd yw helpu i ddatblygu a defnyddio dulliau a thechnoleg ddiagnostig er mwyn cynorthwyo clinigwyr milfeddygol i benderfynu a oes angen triniaeth sy'n cynnwys gwrthfiotigau ac, os oes, dewis y gwrthfiotigau priodol i iacháu'r clefyd, gan sicrhau bod y risg o ymwrthedd yn datblygu mor isel ag y bo modd.

Byddwn yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i wyddonwyr yng Nghymru gyfrannu at y Cynllun hwn. Byddwn yn mynd ati i ymgysylltu â **rhwydweithiau ymchwil** er mwyn deall y sefyllfa yn ymwneud â gwaith ymchwil sy'n newid yn gyflym, lleihau'r risg o ddyblygu, ac amlygu meysydd o ddiddordeb ar gyfer datblygu a chyflawni polisi Cymru.

# Bod yn bartner byd-eang da

Mae ymwrthedd gwrthficrobaidd yn fygythiad byd-eang ac yn fygythiad i gymdeithas, ac mae angen ymdrech ar lefel fyd-eang a chymdeithas er mwyn ei reoli a'i atal.

Adlewyrchir hyn yng Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU ar gyfer Ymwrthedd Gwrthficrobaidd, ac un o bedair prif thema'r cynllun hwn yw 'bod yn bartner byd-eang da'. Mae diplomyddiaeth ryngwladol i reoli ymwrthedd gwrthficrobaidd yn fyd-eang yn gyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn bennaf. Fodd bynnag, byddwn yn cyfrannu at yr ymdrechion i reoli ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn anifeiliaid fel rhan gwbl integredig o'r Cynllun hwn. Byddwn yn gwneud hyn drwy rannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu gyda chymheiriaid ledled y DU, a, lle bo hynny'n briodol, y tu hwnt. Yn yr un modd, byddwn yn ceisio dysgu o ymdrechion a chanlyniadau rheoli ymwrthedd gwrthficrobaidd o bob cwr o'r byd sy'n berthnasol i Gymru.

Mae rhai mentrau llwyddiannus a gyflwynwyd fel rhan o'n Cynllun Gweithredu Ymwrthedd Gwrthficrobaidd blaenorol wedi ennyn diddordeb eang. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chymheiriaid yn rhyngwladol er mwyn cyfrannu'n llawn at yr ymdrech fyd-eang i reoli ymwrthedd gwrthficrobaidd.

# Gwerthuso

Mae Grŵp Cyflawni ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Anifeiliaid diweddaraf Cymru wedi'i sefydlu er mwyn mireinio ac arwain Cynllun Rheoli Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Iechyd Anifeiliaid Cymru a sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gyflwyno a bod ei ganlyniadau'n cael eu cyflawni.

Mae'r Cynllun yn amlinellu blaenoriaethau, sut maen nhw'n cyfrannu at y canlyniadau strategol, a chamau gweithredu allweddol. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n barhaus ac, os oes angen, gellir cynnwys blaenoriaethau ychwanegol i adlewyrchu unrhyw sefyllfaoedd newydd sy'n dod i'r amlwg. Disgwylir y bydd rhai blaenoriaethau'n parhau i fod ar waith dros nifer o flynyddoedd tra bydd eraill yn para am gyfnod llawer byrrach, er y byddan nhw'n cael effaith sylweddol o bosibl. Bydd y Grŵp Cyflawni yn rhannu cymaint o wybodaeth â phosibl, gan roi rhagor o wybodaeth i randdeiliaid yn rheolaidd am ein dull gweithredu.